# Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
## a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen
### Nos Fawrth 9fed o Orffennaf, 2019 am 7:00y.h.



Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol** | | **Cynghorwyr** - Sara Williams **(SW),** Griffith Jones **(GJ),** John Owen **(JO)**, Gwilym Williams **(GW)**,<br>Ynyr Ellis **(YE)**, Lizbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, William Jones **(WJ)**,<br>Cyng. Aled Jones **(AJ)**. |
| **1.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. |
| **2.** | | **Ymddiheuriadau ac absenoldeb**<br>Olwen Roberts **(OR)**, Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Dim |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod Mehefin, 2019** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **GJ** gywirdeb y cofnodion, eiliodd **JO** ac fe'u mabwysiadwyd. |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | ***5.2.1*** | **Arwyddion Araf Gôr Yrru**<br>Cadarnhaodd **SP** fod yr arwyddion bellach wedi ei gosod yn y lleoliadau cywir. |
| | ***5.2.2*** | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Derbyniwyd esboniad gan Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yn dilyn y cyfarfod blaenorol i esbonio mae cadarnhau defnyddiau yn unig oedd y cais i Blas Pistyll. Cadarnhaodd **AJ** fod ynta a Chriw Pistyll wedi ysgrifennu i'r Adran Cynllunio i gwyno am y newidiadau a'i fod yn disgwyl ymateb.<br>Cynigiodd **LJ** bod cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned yn ymweld ar sefyllfaoedd ar unrhyw geisiadau fel hyn yn y dyfodol. Cytunwyd yn unfrydol. |
| | ***5.2.3*** | **Materion lleol**<br>• Twll yn y lon rhwng mynedfa'r Ganolfan a giât Llithfaen bach<br>• Difrod i'r 'Speed Hump' wrth Minafon a Nant Bach<br>• Twmpath gyferbyn y Ganolfan ar y B4417<br>• Cyflwr tyfiant y chwyn yn y pentref<br>Y cwbl erbyn hyn wedi ei gywiro gan Gyngor Gwynedd. |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiedig.........................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>**C19/0593/43/DA - Diwygiad di-faterol i symud lleoliad y lleiniau ar gae 470**<br>**Parc Carafanau A Chwrs Golff Gwynus, Pistyll.**<br>Derbyniwyd y cais uwchben er gwybodaeth ar y rhestr wythnosol gan Gyngor Gwynedd. |
| **7.** | | **Adolygu Cofrestr Buddiannau Aelodau**<br>Gofynnwyd yn garedig i'r aelodau lenwi'r ffurflenni erbyn y cyfarfod nesaf. |
| **8.** | | **Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol (Cyngor Gwynedd)**<br>Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyngor. Ychwanegwyd y sylwadau i Raglen Waith y Cyngor. |
| **9.** | | **Baw Ci yn y Pentref**<br>Daeth cystadleuaeth y posteri osgoi baw ci i ben heno, a dangoswyd dwylo i gadarnhau enillydd. Penderfynwyd mai Llio Gethin oedd yn llwyddo, a bydd yn derbyn £20 fel gwobr. Bydd y siop hefyd yn rhoi gwobr fach i bawb a gystadlwyd.<br>Cytunwyd bydd **SP** yn trefnu i argraffu posteri proffesiynol.<br><br>Esboniodd **SP** ei bod wedi derbyn cwynion pellach gan Bwyllgor Cae Chwarae am drafferthion bagiau baw ci yn cael ei gadael yn y Cae Chwarae, gofynnwyd i'r Cyngor gadw mewn golwg y posibilrwydd o archebu buniau. |
| **10.** | | **Materion Lleol** |
| | 10.1 | Derbyniwyd cwyn gan **LJ** am dipio anghyfreithlon sef teledu ac 'u bank' ac yn y blaen yn Lôn Rhosydd gyferbyn a Phig y Delyn.<br>Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. |
| | 10.2 | Derbyniwyd cwynion am yr awyren sy'n hedfan yn ddyddiol a phroblem gyda sŵn. Mae esboniad wedi ei dderbyn gan aelod o'r pentref mae awyren hyfforddiant o'r Valley yw'r broblem.<br>Gofynnwyd yn garedig i'r Aelod Lleol wneud cwyn swyddogol. |
| | 10.3 | Derbyniwyd cais gan **GJ** i'r Clerc gysylltu a Danny's Garden Service i wneud toriad arall i'r fynwent. Penderfynwyd gan na fydd y Cyngor yn cyfarfod eto tan fis Medi, wneud siec iddo heno, a'r Clerc i'w yrru wedi'r gwaith gael ei gwblhau. |
| **11.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | ***11.1*** | **Ymateb Cyngor Gwynedd I'r cwynion a godwyd dan bennawd Materion lleol yng Nghyfarfod mis Mehefin**<br>Derbyniwyd a thrafodwyd yn bwynt 5.2.3 |
| | ***11.2*** | **Ymateb Cyngor Gwynedd I gŵyn am ordyfiant y chwyn yn y pentref.**<br>Derbyniwyd a thrafodwyd ym mhwynt 5.2.3 |
| | ***11.3*** | **Ymateb Cyngor Gwynedd i ymholiad am gais cynllunio Plas Pistyll o gyfarfod Mehefin**<br>Derbyniwyd a thrafodwyd yn bwynt 5.2.2 |
| | ***11.4*** | **Gwybodaeth gan Fantell Gwynedd - Eu bod wedi ychwanegu gwybodaeth am y Cyngor Cymuned I gronfa ddata Cefnogi Trydydd Sector Cymru.**<br>Derbyniwyd er gwybodaeth |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiedig..........................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | ***11.5*** | **Datganiad Ysgrifenedig: Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Toiledau Cyhoeddus**<br>Derbyniwyd er gwybodaeth<br><br>**Arolwg Gofalwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**<br>Derbyniwyd er gwybodaeth<br><br>**Bwletin Newyddion Un Llais Cymru**<br>Derbyniwyd er gwybodaeth<br><br>**Holiadur Prifysgol Lerpwl gan Thomas Owain Hughes**<br>Llenwyd yr holiadur ar ran y Cyngor, y Clerc I'w yrru ymlaen. |
| | ***11.6*** | |
| | ***11.7*** | |
| | ***11.8*** | |
| **12.** | | **Cyllid** |
| | ***12.1*** | **Cyfrifon**<br>Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20.<br>Cynigiodd GW eu cywirdeb, eiliodd YE a chytunodd pawb. |
| | ***12.2*** | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**Cyfrif Cyfredol –**<br>Taliadau - £160.00 - Cyflog Clerc<br>£ 13.00 - Treuliau Clerc<br>**Balans- £4,273.08**<br><br>**Cyfrif Cadw –**<br>Llogau bank - £1.62 (ni fydd y llogau yn ymddangos yn y cyfrifon tan y cyfarfod nesaf)<br>**Balans- £3,082.55** |
| | ***12.3*** | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>Cyflog Clerc £160.00<br>Treuliau Clerc £ 21.33<br>Cyflog Awst Clerc £160.00 (yn cael eu talu o flaen llaw gan na fydd Cyfarfod mis Awst)<br>Treuliau Awst Clerc £ 10.00 (yn cael eu talu o flaen llaw gan na fydd Cyfarfod mis Awst)<br>Llio Gethin £ 20.00<br>Danny Osborn £100.00 (nodwyd roedd camgymeriad yng nghyfanswm y siec a gwnaethpwyd siec arall am £60 iddo hefyd.)<br>(Gan mae yn ystod y Cyfarfod gofynnwyd am siec I Llio Gethin ac I Danny Osbourn, ni fyddent yn ymddangos yn y cyfrifon tan y cyfarfod nesaf.) |
| **13.** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>10fed o Fedi, 2019 |

*Llofnodwyd gan........................................................................................Dyddiedig..........................................................*